

CYFLEOEDD I YMARFERWYR CREADIGOL:

UNDERCURRENTS – ON OUR DOORSTEP

Ffi: £1,250 fesul cyfle (ar gyfradd o £250 y dydd), ynghyd â hyd at £250 ar gyfer teithio a thaliadau rhesymol a hyd at £330 am ddeunyddiau.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 09 Mehefin 2021, hanner nos (GMT)

Hyd y prosiect: Gorffennaf – Medi 2021

Cyd-destun

Mae Partneriaeth UNDERCURRENTS - ON OUR DOORSTEP yn awyddus i ymgysylltu â thri Ymarferwr Creadigol yng Nghymru (gall y rhain fod yn artistiaid, gwneuthurwyr, dylunwyr neu ymarferwyr creadigol eraill ac efallai'n unigolion, partneriaeth neu'n gweithio ar y cyd) i weithio â thrigolion lleol i fanteisio ar gysylltiadau diwylliannol ardal Cwm Aber (Abertridwr a Senghennydd) i helpu cymunedau i fanteisio ar asedau diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal.

Cymuned lofaol oedd Cwm Aber yn y gorffennol ac mae am ddweud ei stori o'r newydd.

Rydyn ni eisiau darganfod a llunio naratifau cyfoes gweladwy ac archwilio sut y gall celf a gweithgaredd diwylliannol alluogi cymunedau i gysylltu â'u cymuned mewn ffyrdd newydd a gwella bywyd pob dydd ar yr un pryd.

Mae'r cyfleoedd hyn yn rhan o UNDERCURRENTS – ON OUR DOORSTEP – prosiect partneriaeth rhwng Undercurrents –

grŵp cymunedol Celfyddydau yng Nghwm Aber, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Addo, a ariennir gan gronfa grant Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer datblygu cynigion cydweithredol rhwng sefydliadau, unigolion a gweithwyr proffesiynol creadigol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o gam cyntaf yr hyn a obeithir fydd rhaglen hirdymor, a fydd yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â gwaith yr Ymarferwyr Creadigol penodedig a fydd yn ei lywio. Rydym yn bwriadu gwneud cais am gyllid pellach er mwyn gallu datblygu'r prosiect ymhellach.

Y Cyfleoedd

Mae tri chyfle cyflogedig ar gael i weithio gyda ni i ddatblygu camau ymyrryd celf byr a fydd yn archwilio tri maes allweddol: i) Mannau Awyr Agored; ii) Merched a Gwaith; iii) Iaith. Y gobaith yw y bydd prosesau a chanlyniadau'r ymyriadau hyn yn gwneud y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth a diddordeb yn y prosiect ymysg amrywiaeth o grwpiau ac unigolion mor eang â phosibl yng Nghwm Aber;
- Ennyn syniadau, datgelu asedau, anghenion a dyheadau lleol;
- Cymryd agwedd feirniadol tuag at weithio yn y parth cyhoeddus sy'n ymatebol i gyd-destun penodol y prosiect, yr ardal leol a'r cymunedau sy'n cymryd rhan ac sy'n symud y tu hwnt i gynrychiolaeth syml a gweithgareddau gwella. Rydym am herio a chael ein herio a gweithio mewn dull arloesol;
- Paratoi cyflwyniad/dogfennaeth esthetig o ansawdd uchel sy'n canfod ac yn cyfleu canfyddiadau i fwydo i mewn i ddatblygiad a ffynonellau cyllid ar gyfer rhaglen hirdymor o ymyriadau celfyddydol fydd yn ymateb i anghenion,

syniadau ac asedau a ddatgelir yn ystod y cam cychwynnol hwn o'r prosiect.

Y gobaith yw y bydd yr Ymarferwyr Creadigol a gomisiynir yn gweithio gyda phartneriaid prosiect Undercurrents i ddatblygu cynigion ar gyfer rhaglen waith fwy a fydd yn cael effeithiau hirdymor / cynaliadwy ar ardal Cwm Aber a'i thrigolion ac y bydd yr Ymarferwyr Creadigol a benodir yn cael eu hymgorffori fel partneriaid allweddol. O wneud hyn, y gobaith yw y bydd y comisiynau tymor byr cychwynnol hyn yn arwain at gysylltiadau gwaith parhaus rhwng Undercurrents, artistiaid ac unigolion lleol, grwpiau a chymunedau o ddiddordeb. Mae'r tri maes allweddol sy'n ffurfio canolbwynt y cyfleoedd hyn wedi esblygu o waith blaenorol Undercurrents a'i gysylltiadau presennol. Y bwriad yw y bydd y cyfleoedd hyn yn gwella ac yn ategu at waith y mae grwpiau ac unigolion eisoes yn ei wneud yn yr ardal.

CYFLE UN – Mannau Awyr Agored

Cyfle yw hwn i weithio gyda ni i fapio a dod o hyd i asedau diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal, yn enwedig manau awyr agored, er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer ymyriadau gan gelfyddydau a diwylliant all dynnu sylw at, gwella neu fanteisio arnynt er budd cymunedau lleol. Y gobaith yw y bydd hyn yn ymgysylltu ac yn cyflwyno'r prosiect i grwpiau gweithredol yr ardal (e.e. Grŵp Amgylcheddol Cwm Aber, Sefydliad y Merched Cwm Aber, YMCA, Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghennydd (SYDIC), Cyngor Cymuned Cwm Aber, Pwyllgor Treftadaeth Cwm Aber) ac ategu at waith y maent eisoes ac yn dal i'w wneud, yn ogystal â chysylltu â chymunedau ac unigolion anodd eu cyrraedd. Mae Cwm Aber yn hen gyfarwydd â chroesawu pobl o ardaloedd, gwledydd a diwylliannau eraill, nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cynrychioli yn y brif ffrwd. Mae yna hefyd gymunedau ac

unigolion, fel y gymuned ddigartref, sydd yn aml yn cael eu heithrio o weithgareddau cymdeithasol, celfyddydol a diwylliannol. Hoffem ymgysylltu ag amrywiaeth mor eang â phosibl o leisiau a syniadau, yn y gobaith y bydd y gweithgareddau cychwynnol hyn yn ein helpu i lywio camau nesaf ein rhaglen. Mae gennym ddiddordeb mewn gweithgareddau diwylliannol ffurfiol ac anffurfiol o gymdeithasau celfyddydol i gynulliadau achlysurol ynghylch diddordebau cyffredin (megis agweddau ar ddiwylliant ieuenctid, ‘clybiau’ gemau, ac ati). Mae gan y Cwm doreth o fannau gwyrdd ac yn sgil y ffaith bod y cyfyngiadau symud wedi newid perthynas pobl â'u cymuned, mae gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y mae neu yn y modd y gall trigolion ddefnyddio mannau awyr agored (e.e. llwybrau, llwybrau beicio, meysydd parcio segur, meysydd chwarae a mannau gwyrdd sy'n ffurfio amffitheatrau naturiol) neu sydd â'r potensial i drigolion eu defnyddio (e.e. yn ddiweddar, ffurfiodd Sefydliad y Merched glwb cerdded). Fel rhan o'r cyfle hwn, byddwn yn cydweithio â'r Rhwydwaith Lles Integredig (IWN) i archwilio sut y gall gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol annog trigolion i ddefnyddio mannau awyr agored fel modd o wella eu hiechyd a'u lles.

CYFLE 2 – Menywod mewn Gwaith

Cyfle yw hwn i Ymarferydd Creadigol archwilio materion cyfoes yn ymwneud â menywod a gwaith yn Nghwm Aber, gan fanteisio ar hanes y Biwro Diwydiannau Gwledig ac Abertridwr Quilters i archwilio, datgelu a datblygu prosiect mewn ymateb i bryderon cyfoes menywod mewn gwaith yn Nghwm Aber.

Roedd Abertridwr Quilters yn un o chwe grŵp cwiltio a sefydlwyd gan y Biwro Diwydiannau Gwledig i adfywio'r grefft o gwiltio fel rhan o gynllun a ddechreuwyd ym 1928 i annog diwydiannau crefftau bach mewn ardaloedd economaidd

difreintiedig. Yn ôl tystiolaeth a gasglodd y Biwro yn ystod y 1920au, gwelwyd nad oedd y gwaith yr oedd yr ychydig gwiltwyr oedd yn weddill yng nghymunedau bach diwydiannol De Cymru o ansawdd da iawn ond, o wella'r deunyddiau a'r cymhellion ariannol, gwelwyd bod modd ei wella. Talodd y Biwro am ddeunyddiau a dod o hyd i brynwyr ar gyfer eu gwaith. Un ohonynt oedd The Little Gallery Miss Muriel Rose yn Sloane Street, Llundain, siop oedd yn gwerthu gorchuddion cwiltiau gwely i westy Claridge's. Daeth y cynllun i ben ym 1939 ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Er bod y cynllun wedi'i anelu at farchnad foethus y tu allan i'r ardal, llwyddodd y cynllun i godi safon cwiltio Cymru, gan greu cenhedlaeth newydd o gwiltwyr medrus iawn. Mae'r patrwm 'Abertridwr Star' – patrwm siâp diemwnt gyda motiff blodeuog gyda wyth petal fawr, yn dal i fod yn batrwm adnabyddus a ddefnyddir yn helaeth mewn cylchoedd cwiltio heddiw. Mae gwaith a hanes Abertridwr Quilters wedi'i ddogfennu yng nghasgliadau ac archifau Amgueddfa Sain Ffagan, sefydliad sy'n cefnogi'r prosiect hwn. Yn ogystal, mae'r dramodydd lleol Evan Eynon Evans (1904–1989) yn cyfeirio at yr urdd gwnïo yn ei ddrama 'Jailbird Johnnie: A play in one act for women', cyfeiriad diddorol at sut roedd cwmnïau o'r fath yn cael eu rhedeg a bywydau'r menywod a oedd yn gweithio iddynt.

Mae rhagor o wybodaeth am Abertridwr Quilters a'r Biwro Diwydiannau Gwledig ar wefan Amgueddfa Genedlaethol Cymru (cyfeirir ati uchod):

https://amgueddfa.cymru/casgliadau/arlein/object/566a76bc-f706-3899-ab65-d2f68c4f47b8/?_ga=2.208131216.369807915.1620573017-1690840489.1620573017

Mewn blogpost ar wefan Women Designing, mae rhagor o wybodaeth ar gael am Little Gallery Miss Muriel Rose:

<https://blogs.brighton.ac.uk/womendesigning/2015/11/12/muriel-rose-and-the-little-gallery/>

CYFLE 3 – IAITH

Mae cymuned Gymraeg frwd yng Nghwm Aber ond cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ymgysylltu â chelfyddydau a diwylliant yr ardal trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n awyddus i ddod o hyd i Ymarferydd Creadigol sy'n siarad Cymraeg i weithio gyda ni a Menter Iaith (Caerffili) i archwilio a datblygu ymyrraeth gelfyddydol / rhaglen waith arloesol fydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn yr hirdymor drwy ymgysylltu, mentora a chydabod anghenion a mewnbwn creadigol artistiaid ac ymarferwyr creadigol lleol sy'n siarad Cymraeg.

Llywodraethu Prosiect a Chydweithio â Chymunedau a Rhanddeiliaid Allweddol

Bydd yr Ymarferwyr Creadigol penodedig yn cael eu contractio gan Undercurrents. Y prif bwynt cyswllt i'r Ymarferwyr Creadigol fydd Sarah Pace o Addo a Gary Metcalfe o Undercurrents.

Bydd Grŵp Llywio craidd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o dri phrif bartner y prosiect (Undercurrents, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Addo) yn goruchwylio ac yn rheoli'r prosiect. Mae hon yn bartneriaeth gyfartal yn unol â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cronfa grant Cysylltu a Ffynnu. Fodd bynnag, at ddibenion rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd, Sarah Pace o Addo fydd rheolwr y prosiect a Gary Metcalfe, Cadeirydd Undercurrents fydd yn goruchwylio trefniadau ariannol a chytundebol y prosiect.

Y bwriad yw y bydd rhwydwaith/grŵp ehangach o randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect yn cael ei ffurfio yn ystod y cam cyntaf hwn, fel modd o ymgysylltu â grwpiau ac unigolion gweithredol yr ardal ac ategu at eu gwaith/cynnig presennol. Un enghraifft yw'r IWN,

sy'n awyddus i gefnogi cyfleoedd lles cymunedol sy'n deillio o bob rhan o'r gwaith hwn.

Disgwylir y bydd yr Ymarferwyr Creadigol penodedig yn ceisio ymgysylltu ag unigolion a grwpiau lleol sy'n berthnasol i'r cyfleoedd a hysbysebir trwy ddeialog, trafodaethau a gweithgareddau cyfranogi. Bydd partneriaid craidd y prosiect yn cefnogi'r gweithgaredd hwn a'r Ymarferydd Creadigol fydd yn penderfynu ar ei ffurf trwy ymchwil a thrwy ymgynghori â'r Grŵp Llywio a rhanddeiliaid allweddol eraill fel bo'r angen.

Yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan yr Ymarferwyr Creadigol

Mae'r cyfleoedd hyn yn agored i Ymarferwyr Creadigol sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion, partneriaethau, grwpiau neu grwpiau cydweithredol. Rhaid i ymgeiswyr ddangos:

- Gwreiddioldeb creadigol, ansawdd artistig a phroffesiynoldeb yn eu gwaith;
- Y gallu a'r awydd i weithio'n agored ac ar y cyd fel rhan o'u harfer creadigol, yn enwedig gyda chymunedau a phartneriaid eraill;
- Ethig gwaith hunan-ysgogol, egniol a rhagweithiol;
- Parodrwydd i ymgolli ym mywyd a diwylliant yr ardal;
- Ymwybyddiaeth feirniadol o'r rolau y gall/na all Ymarferwyr Creadigol a gweithgaredd diwylliannol eu chwarae yn y parth cyhoeddus ac sydd o fudd i'r cyhoedd;
- Ymwybyddiaeth a pharodrwydd i gadw at y deddfau ar gyfer gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed, pe baent yn ymgymryd â gwaith o'r fath fel rhan o'r prosiect;
- Gallu profedig o gyflawni canlyniadau creadigol o ansawdd uchel yn y parth cyhoeddus ar amser a chyda cyllideb benodol;

- Tystiolaeth o lefelau priodol o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chynhyrchion ac yswiriant indemniad proffesiynol;
- O ran Cyfle 3, rhaid i'r Ymarferwydd Creadigol penodedig allu siarad, ysgrifennu a deall Cymraeg.

Amserlen y Prosiect

18 Mai 2021	Hysbysebu Cyfleoedd
09 Mehefin 2021, hanner nos	Dyddiad cau ar gyfer Ceisiadau
18 Mehefin 2021	Ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i gyfweiliadau
23 a 24 Mehefin 2021	Cynnal cyfweiliadau ar Zoom – rhaid i ymgeiswyr fod ar gael ar y dyddiadau hyn
w/d 28 Mehefin 2021	Penodi Ymarferwydd Creadigol
01 Gorffennaf – 30 Medi 2021	Cyflawni'r gweithgaredd
Medi–Hydref 2021	Gwerthuso a datblygu ceisiadau cyllido pellach, ac ati.

Ffioedd a Chyllideb

Rydym yn cynnig ffi o £1,250/cyfle am 5 diwrnod o waith ar gyfradd o £250 y dydd. Mae cyllidebau ychwanegol o hyd at £250 ar gyfer teithio a thaliadau rhesymol a hyd at £330 ar gyfer deunyddiau ar gael hefyd. Rhaid cytuno ar y gwariant hwn ymlaen llaw tra bo cyfyngiadau COVID mewn grym gyda'r Grŵp Llywio. Mae'r holl ffioedd a'r costau yn cynnwys TAW.

Sut i Ymgeisio

Rheolir y broses recriwtio gan asiantaeth guradurol Addo (www.addocreative.com) ar ran ac mewn cydweithrediad â'r Grŵp Llywio.

I wneud cais, cyflwynwch yr wybodaeth ganlynol i commissions@addocreative.com erbyn **hanner nos (GMT) 09 Mehefin 2021**, gan nodi'n glir pa un o'r tri chyfle y mae gennych ddiddordeb ynddo:

- Hyd at 10 delwedd ddigidol ac os dymunir, rîl arddangos dim hirach na 10 munud. Dylai'r rhain gael eu labelu'n glir ynghyd â disgrifiad byr o'r prosiect y maent yn ymwneud ag ef a'i berthnasedd i'ch cais;
- CV diweddaraf;
- Llythyr cais byr sy'n nodi pa un o'r tri chyfle rydych chi'n ymgeisio amdano ac amlinelliad bras sy'n nodi pam bod gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut mae'n berthnasol i'ch ymarfer;
- Manylion unrhyw anghenion mynediad sydd gennych fel y gallwn wneud trefniadau ar eu cyfer yn ystod y cyfweliad a thrwy gydol y prosiect. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan artistiaid o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, artistiaid a chanddyn nhw nodweddion gwarchoddedig, artistiaid anabl a B/byddar, artistiaid ar gyflogau isel, a phobl ar gyrion cymdeithas. Gofynnwn i ddarpar ymgeiswyr roi gwybod i ni am unrhyw ofynion mynediad sydd ganddynt er mwyn gwneud cais am y cyfle yma;
- Dau ganolwr a all dystio eich bod yn addas i gyflawni'r comisiynau hyn.

Dewisir ymarferwyr creadigol yn ôl pa mor addas yw ansawdd a pherthnasedd eu gwaith i'r cyfleoedd. Sylwch nad oes angen i chi gyflwyno cynigion/syniadau ar gyfer y gweithgareddau ar hyn o bryd. Bydd yr Ymarferwyr Creadigol llwyddiannus yn datblygu'r rhain ar y cyd â phartneriaid y prosiect a rhanddeiliaid allweddol eraill fel sy'n briodol.

Os ydych yn anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), darparwch hypergysylltiadau i ffeiliau ar-lein neu defnyddiwch Dropbox / WeTransfer.

Taith o gwmpas Cwm yr Aber

Nid ywn rheidrwydd ar i unrhyw ymgeisydd ymweld a Chwm yr Aber, rhag blaen, cyn, ac er mwyn ymgeisio am y cyfleoedd prosiect sydd ar gael, ond ir sawl sydd am flasur cwm o flaen llaw, mae gwahoddiad i ymuno ar trefnwyr (Undercurrents) ar **Fehefin 4ydd 2021**. Gellir bwcio lle ar y daith trwy ddefnyddio Eventbrite a dilyn y linc yma:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/154836569347>

Os nad ydych ym medru ymuno ar daith o gwmpas y cwm, efallai y cewch wybodaeth ddefnyddiol gogyfer a trefnu taith fach eich hun or cysylltiadau canlynol:

<https://www.visitcaerphilly.com/cy/aber-valley-heritage-museum/>

Y Broses Ddethol

O'r ceisiadau a ddaw i law, bydd partneriaid y prosiect yn llunio rhestr fer o hyd at 4 ymgeisydd ar gyfer bob cyfle ac yn eu gwahodd i gyfweliad. Cynhelir cyfweliadau ar Zoom ar **23 a 24 Mehefin 2021**. Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael ar y dyddiadau hyn.

Yn y cyfweliad, bydd disgwyl i'r cyfweleion siarad yn fanylach am eu gwaith yn y gorffennol a'u prosesau gweithio a'r dull y maent yn rhagweld y byddant yn ei ddefnyddio i ymgymryd â'r comisiwn. Gofynnir iddynt gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith diwethaf ac yn dilyn y cyfweliad, bydd eu gwaith blaenorol a'u hymateb cychwynnol i'r cyfleoedd (nid y cynigion) yn cael ei asesu. Bydd pob cyfweliad yn para 45 munud ac yn cynnwys cyflwyniad byr gan y cyfwelai yn ogystal â chwestiynau a thrafodaeth gydag aelodau'r panel cyfweld.

Anfonir amserlen y cyfweliad a gwybodaeth am aelodau'r panel cyn y cyfweliad. Mae partneriaid y prosiect wedi

ymrwymo i gyfle cyfartal a bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn unol â'r meini prawf a nodir uchod, yn ôl teilyngdod a heb ragfarn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag commissions@addocreative.com

Rhagor o wybodaeth

Rhagor am Undercurrents yma:

https://www.facebook.com/AberValleyArt/?ref=page_internal

Rhagor am Dîm Datblygu'r Celfyddydau Caerffili:

<https://www.facebook.com/caerphillyarts>

Rhagor am Addo: www.addocreative.com

Fe cyllidir y prosiect Undercurrents - On Our Doorstep gan gronfa Cysylltu a Ffynnu y Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn datblygu cynigion cydweithredol rhwng sefydliadau, unigolion a phobl broffesiynol greadigol hefo cyllid gan gyngor bwrdeistref sirol Caerffili a Rhwydweithiau Lles Integredig, Gwent.

